datganiad ar fynediad

Yn Nhafarn y Black Boy, rydym yn credu y dylai ein gwesteion allu gwneud dewis gwybodus a yw ein hadeilad, gyda'i nodweddion fel nenfydau isel, coridorau cul a thrawstiau agored, yn cwrdd â'u hanghenion neilltuol.

Rydym yn croesawu ein holl westeion heb wahaniaethu, ac yn ymdrechu i wneud y safle'n hygyrch i bawb.

Mae'r dafarn wedi ei lleoli yng nghanol y dref, gyda man gollwng y tu allan i'r brif fynedfa.

Mae ein cyfleusterau parcio ar y safle yn ddi-dâl, ac o fewn 20 metr i brif fynedfa'r dafarn. Mae wyneb tarmac a cherrig palmant ar yr un lefel â'r brif fynedfa, lle ceir stepen fawr wrth y drws blaen.

Mae Caernarfon ar brif lwybr bysiau Gogledd Cymru.

Y brif orsaf drenau agosaf yw Bangor, sydd 9 milltir oddi yma.

Mae'r dderbynfa wedi cael ei haddasu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Nid oes system dolen sain wedi ei gosod.

Nid oes mynediad rhwydd i'r ystafelloedd gwely yn y dafarn am eu bod ar ddwy lefel gyda grisiau i'w cyrraedd.

Mae Tafarn y Black Boy yn adeilad hanesyddol, ac oherwydd y modd y mae wedi ei chynllunio, nid yw'n hygyrch iawn i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae'r lloriau yn anwastad a'r coridorau yn gul.

Mae toiled ar y llawr gwaelod yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Nid oes lifft yma.

Caniateir cŵn tywys.

Os nad yw'r datganiad hwn yn ateb eich ymholiad penodol, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni. Rydym yn barod iawn i ddarparu rhagor o wybodaeth yn ogystal â chynnig cefnogaeth yn ystod eich ymweliad â Thafarn y Black Boy.

TAFARN Y
BlackBoy Inn
Tafarn y Black Boy • Stryd Pedwar a Chwech • Caernarfon • Gwynedd • LL55 1RW
T **01286 673604** F **01286 674955** **www.black-boy-inn.com**